

## Sesiwn Gwrandawriad 4 – Tai Fforddiadwy a Sipsiwn a Theithwyr

Pwynt Gweithredu	I'w cwblhau erbyn	Swyddog
<b>PG1</b> – Y Cyngor i roi gwybod i'r archwiliad cyn gynted ag sy'n bosibl ynglŷn â safle Ffordd y Drenewydd, Machynlleth: y penderfyniad a wnaed gan Wyriad o'r pwyllgor Safonau (25 Ebrill); canlyniad y cais cynllunio.	12 Mai 2017	PM
<b>PG2</b> - Y Cyngor i isrannu polisi H13 i greu polisi dyraniadau a rheoli datblygu.	12 Mai 2017	PM
<b>PG3</b> - Y Cyngor ar y cyd â Chyfoeth Naturiol Cymru i ddynodi a llywio'r archwiliad ar ôl cyhoeddi'r Map DAM diwygiedig (20 Ebrill) ar gyfer Ffordd y Drenewydd, Machynlleth. Diwygio'r testun cefnogol Polisi H13 i adlewyrchu presenoldeb o faterion yn ymwneud â llifogydd ar y safle dyranedig.	12 Mai 2017	PM
<b>PG4</b> - Yr Archwiliad i gael gwybod am ganlyniad cais nawdd LIC ar gyfer darparu safleoedd newydd Sipsiwn a Theithwyr.	12 Mai 2017	PM
<b>PG5</b> – Y Cyngor i ddiwygio paragraff 3.3.7 i amlinellu'r targed ar draws yr awdurdod ar gyfer tai fforddiadwy dros gyfnod y cynllun.	12 Mai 2017	AR
<b>PG6</b> – Diwygio Polisi SP3 a'r cyfiawnhad rhesymedig i roi manylion natur a mathau o aneddeleoedd, maint a thai fforddiadwy gwledig.	12 Mai 2017	AR/TD
<b>PG7</b> – Y Cyngor i ddiwygio Polisi SP3 i gynnwys ffigwr dyranedig o dai fforddiadwy o 952 a gwneud diwygiadau dilynol i destun y cynllun.	12 Mai 2017	AR
<b>PG8</b> - Y Cyngor i ddarparu'r archwiliad gyda gwybodaeth gan y DVD ar brofion hyfywedd ar drothwy safleoedd o 4.	12 Mai 2017	AR
<b>PG9</b> – Y Cyngor i gynnwys rhestr o ardaloedd Cynghorau Cymuned yn Atodiad 4 y cynllun i gyd-fynd â'r parthau tai fforddiadwy.	12 Mai 2017	AR
<b>PG10</b> – Y Cyngor i ddiwygio Polisi H4 fel y nodwyd yn Atodiad 3 o ddatganiad y Cyngor fel a ganlyn: i. Y testun coch yn dechrau "Caiff y cyfraniadau uchod ..." i'w symud i'r Cyfiawnhad Rhesymedig. ii. Symud Meini Prawf 4 i'r Cyfiawnhad Rhesymedig. iii. Symud meini prawf 5 i'r Polisi SP3 (yn unol â PG6). iv. Cydweithio gyda Llywodraeth Cymru a HBF	12 Mai 2017	AR

<b>Pwynt Gweithredu</b>	<b>I'w cwblhau erbyn</b>	<b>Swyddog</b>
am eiriad y paragraff terfynol er mwyn ei ddatgan mewn termau mwy niwtral.		
<b>PG11</b> – Y Cyngor i egluro sut y bydd symiau gohiriedig yn cael eu rheoli a'u defnyddio.	12 Mai 2017	AR
<b>PG12</b> – Diwygio Polisi H4 (5) trwy ddileu 'rhaid' a gosod 'dylid' yn ei le.	12 Mai 2017	AR
<b>PG13</b> - Cyfuno Polisiâu H5 a H7.	12 Mai 2017	AR / TD
<b>PG14</b> - Dileu Polisi H8 Cymhwyster tai fforddiadwy a'i ail-leoli ym Mholisi SP3 neu ei gyfiawnhad rhesymedig / geirfa fel sy'n briodol.	12 Mai 2017	AR/TD

Nodyn cyffredinol ar y Pwyntiau Gweithredu (PGau):

Bydd y rhain fel arfer yn cael eu cytuno mewn egwyddor gan yr Arolygydd a'r ACLI, ac unrhyw gyfranogwyr eraill fel sy'n ofynnol, ar ddiwedd y sesiwn gwrandawriad perthnasol. Lle bo hynny'n bosibl, bydd y PG yn pennu amserlen a gytunir i'w cwblhau. Os nad yw hi'n bosibl pennu'r amserlen ar adeg y drafodaeth, bydd y ACLI yn trafod hyn gyda'r Arolygydd trwy Swyddog y Rhaglen. Bydd yr Arolygydd Cynllunio yn anfon ffurf o eiriad a awgrymir ar gyfer y PGau i'r ACLI trwy Swyddog y Rhaglen cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ddiwedd y sesiwn gwrandawriad. Unwaith bod yr ACLI yn fodlon fod y cynnwys yn gywir, fe fyddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Archwiliad cyn gynted ag sy'n bosibl er dibenion bod yn agored. Bydd yr ACLI yn gweithio ar yr amserlen o Newidiadau Materion sy'n Codi (NMCau) ochr yn ochr â'r PGau a'r ymatebion PG, gan sicrhau fod y NMCau yn cael eu cofnodi'r gywir yn ystod y cam cynharaf posibl. Bydd yr Arolygydd yn cadarnhau pan fydd hi'n disgwyl derbyn Amserlen NMC diweddar; fe fydd hyn fel arfer cyn y sesiwn gwrandawriad terfynol.